**RHEOLAU GOLFF CYMRU**

## 1. Cyflwyniad

**1.1.** Bydd yr holl delerau a ddiffinnir yn y Rheolau hyn yn dal yr un ystyr â'r rhai a ddefnyddir yn Erthyglau Cymdeithas Undeb Golff Cymru Cyfyngedig (Golff Cymru neu'r Cwmni) dyddiedig 27 Medi 2022.

## 2. Cais am Aelodaeth

2.1. Rhaid i glwb sy'n dymuno dod yn Aelod gyflwyno cais i ysgrifennydd Golff Cymru, neu unigolyn arall sy'n cael ei benderfynu gan y Bwrdd, gan ddefnyddio'r broses ymgeisio sydd mewn grym ar yr adeg a rhaid cydymffurfio gyda gofynion Rheol 3. Mae'r holl geisiadau yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Bwrdd.

## 3. Gofynion Aelodaeth

Rhaid i Glwb sy'n Aelod o Golff Cymru ddiwallu'r gofynion canlynol:

3.1. Yr isafswm nifer aelodau mewn Clwb sy'n ymgeisio i fod yn aelod cyswllt yw 20 aelod oedolyn.
Gall Bwrdd Golff Cymru, yn ôl ei ddisgresiwn, atal y gofyniad hwn am gyfnod o hyd at ddeuddeg mis er mwyn gallu datblygu sylfaen aelodaeth mewn clwb sydd newydd ei sefydlu.

3.2. Rhaid i'r Aelod gydymffurfio ag Erthyglau a Rheolau Golff Cymru.

3.3. Mae'n ofynnol bod gan yr Aelod gyfansoddiad a rheolau sy'n briodol i glwb golff ac i safon sy'n dderbyniol i Golff Cymru.

3.4. Mae'n ofynnol bod gan yr Aelod y polisïau ysgrifenedig canlynol sy'n gyson â chanllawiau diweddaraf Golff Cymru:

3.4.1. Polisi diogelu plant ac oedolion; a
3.4.2. Pholisi Cydraddoldeb.

3.5. Os gofynnir amdano gan Golff Cymru bydd pob Aelod, cyn pen 30 diwrnod ar ôl cais o'r fath, yn darparu copi o unrhyw bolisi sy'n ofynnol o dan Reol 3.4 uchod i Golff Cymru.

3.6. Pan fydd yn dod yn Aelod, rhaid i Aelod dalu ffi tanysgrifio flynyddol i Golff Cymru; bydd y ffi yn cael ei bennu gan y Bwrdd yn unol â'r Rheolau yma.

3.7. Rhaid hysbysu Golff Cymru o newid mewn awdurdod llywodraethu (neu gwrs) Aelod yn sgil gwerthu neu reswm arall. Ni chaiff Aelod barhau i fod yn aelod cyswllt yn awtomatig a bydd ond yn cael ei gadarnhau gan Golff Cymru os yw'n fodlon bod cyfansoddiad y Clwb dal yn briodol ar gyfer clwb golff ac i safon sy'n dderbyniol i Golff Cymru.

3.8. Rhaid i Aelod nad yw'n rheoli cwrs gael caniatâd gan y clwb golff, unigolyn neu gorff sy'n rheoli'r cwrs i wneud cyfleusterau chwarae rhesymol ar gael.

3.9. Rhaid i'r Aelod gadw at Reolau Golff a Rheolau Statws Amatur fel sydd wedi'u nodi o bryd i'w gilydd yn y Rheolau a'r Erthyglau.

3.10. Rhaid i Aelod:

3.10.1 Weinyddu handicap golff yn unol â gofynion System Handicap y Byd (WHS) gan gynnwys unrhyw amodau sydd wedi'u gosod gan Golff Cymru.

3.10.2 O fewn un mis i ddod yn Aelod, uwchlwytho manylion eu haelodaeth ar System Handicap y Byd, ac ar ôl hynny, cadw cofnodion yn gyfredol.
3.10.3 Sicrhau bod cofnodion handicap ar gael i'w harchwilio gan Golff Cymru ar ôl cael rhybudd rhesymol.

## 4 Tanysgrifiad Blynyddol ar gyfer Clybiau sy'n Aelodau

4.1 Bydd y Bwrdd yn penderfynu ar y tanysgrifiad blynyddol sy'n daladwy gan bob Aelod yn unol â'r Rheolau hyn a bydd yn rhedeg rhwng 1 Medi a 31 Awst bob blwyddyn.

4.2 Rhaid i bob Aelod dalu ffi am bob Oedolyn ac Aelod Iau (gan gynnwys y rhai ag aelodaeth hyblyg) sydd â hawliau chwarae dros y cwrs ar 31 Awst bob blwyddyn (y "Ffi Tanysgrifio") fel yr hysbysir gan y Bwrdd. Am fanylion pellach gweler Atodiad 1.

4.3 Bydd gan y Bwrdd (yn ôl ei ddisgresiwn llwyr) hawl:

4.3.1 bob blwyddyn i gynyddu'r Ffi Tanysgrifio hyd at 5% neu
4.3.2 ar unrhyw adeg i gynyddu'r Ffi Tanysgrifio gan swm sy'n fwy na'r swm a nodir yn Rheol 4.3.1 os oes rheswm y gellir ei gyfiawnhau dros wneud hynny ym marn resymol y Bwrdd.

Bydd y Bwrdd yn gofyn i bob Aelod gwblhau ffurflen aelodaeth ar-lein. Rhaid i bob Clwb lenwi'r ffurflen ar-lein yn gywir gan restru nifer yr Aelodau Oedolion ac Iau (fel y manylir ym mhwynt 4.2) ar 31 Awst yn y flwyddyn honno a thalu'r holl Ffioedd Tanysgrifio i Golff Cymru, neu gael trefniant debyd uniongyrchol mewn lle, erbyn 30 Tachwedd.

4.4 Os yw Aelod yn methu â chwblhau'r ffurflen ar-lein a thalu'r holl Ffioedd Tanysgrifio i Golff Cymru erbyn y 1 Mawrth canlynol, bydd gan y Bwrdd hawl i atal unrhyw un neu bob un o freintiau'r Clwb fel Aelod nes bod yr hysbysiad tanysgrifio wedi'i ddychwelyd a phob Ffi Tanysgrifio wedi'u talu'n llawn.

4.5 Os yw Aelod yn methu â chwblhau'r ffurflen ar-lein a thalu'r holl Ffioedd Tanysgrifio i Golff Cymru erbyn y 1 Ebrill canlynol, bydd gan y Bwrdd hawl i dynnu'r Aelod Clwb hwnnw o aelodaeth o'r Undeb yn unol â Rheol 5.1.2.

4.6 Os bydd y Bwrdd yn gofyn amdano, bydd pob Aelod o fewn 14 diwrnod yn rhoi manylion llawn ei gofnodion aelodaeth i'r Bwrdd ac yn caniatáu i'r Bwrdd neu ei gynrychiolwyr awdurdodedig archwilio cofnodion aelodaeth y Clwb sydd ar ei eiddo.

## 5 Diswyddo Aelodau

5.1 Gall y Bwrdd, gan ystyried natur a difrifoldeb yr ymddygiad dan sylw, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, atal unrhyw un neu bob un o freintiau'r Clwb fel Aelod, ceryddu, rhoi ar brawf, atal, neu ddiarddel Aelod os bydd y digwyddiadau canlynol yn digwydd:

5.1.1 Os yw Aelod, ym marn y Bwrdd, wedi gweithredu neu wedi bygwth gweithredu mewn modd sy'n groes i fuddiannau'r Undeb cyfan neu os yw ei ymddygiad (p'un ai fel Aelod neu fel arall) yn debygol o ddod â Golff Cymru, neu unrhyw un o'i Gyfarwyddwyr neu Aelodau i anfri;

5.1.2 Os yw Aelod yn methu â thalu'r Ffioedd Tanysgrifio blynyddol a godir yn briodol gan y Bwrdd yn unol â Rheol 4.

5.1.3 Os nad oes gan Aelod yr holl bolisïau ysgrifenedig sy'n ofynnol gan Reol 3.4 ac nad yw'n cywiro hyn cyn pen 30 diwrnod ar ôl i Golff Cymru ofyn amdanynt neu'n methu â darparu copi o'i bolisïau diogelu i Golff Cymru fel sy'n ofynnol o dan Reol 3.5.

5.1.4 Os yw Aelod wedi methu â chydymffurfio â thelerau'r Erthyglau a'r Rheolau hyn.

## 6 Incwm o Gyrsiau Hyfforddi

6.1 Os yw incwm y mae Golff Cymru yn ei gael gan unigolion sy’n cymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi Golff Cymru yn fwy na chostau darparu cyrsiau o’r fath, yn creu arian dros ben, bydd yr arian dros ben yn cael ei ail-fuddsoddi i ddarparu cyrsiau hyfforddi yn y dyfodol.

Golff Cymru
Wedi’i gymeradwyo gan Fwrdd Golff Cymru Mawrth 2024

**ATODIAD 1**

**Cwestiynau Cyffredin**

**Beth yw Aelod Oedolyn?**
Aelod sy'n oedolyn yw unrhyw un sy'n 18 oed neu'n hŷn ar 1 Ionawr 2022 sydd â'r hawl i chwarae dros gwrs (cyrsiau) dynodedig y clwb ni waeth a ydyn nhw'n dewis dal handicap ai peidio.

**Beth yw Aelod Iau?**
Aelod iau yw unrhyw un o dan 18 oed ar 1 Ionawr 2022 sydd â'r hawl i chwarae dros gwrs (cyrsiau) dynodedig y clwb ni waeth a ydyn nhw'n dewis dal handicap ai peidio.

**Beth yw Aelodaeth Hyblyg?**
Mae Aelodaeth Hyblyg yn cynnwys:

Pecynnau aelodaeth sy'n cyfuno tanysgrifiad aelodaeth is gyda ffi werdd ostyngedig neu elfen talu wrth chwarae.

Pecynnau aelodaeth yn seiliedig ar bwyntiau neu gredyd; e.e. platfform Playmoregolf a systemau tebyg eraill.

**Oes angen cynnwys yr holl aelodau sydd hefyd yn aelodau o glwb golff arall e.e. aelodau i ffwrdd?**
Oes.

**Oes angen cynnwys aelodau anrhydeddus?**
Dim ond aelodau Anrhydeddus am Oes y gellir eu heithrio o'r cyfrifiad.  Mae angen cynnwys unrhyw un sydd wedi talu am aelodaeth oes yn y ffurflen.

**Oes angen cynnwys cyfranogwyr yn rhaglen Golff Cymru New2Golf?**
Na.

**Oes angen cynnwys Aelodau Treial a / neu Aelodau Dros Dro?**
Oes, os ydyn nhw'n aelod ar 31 Awst 2022.

**Oes angen cynnwys cyfranogwyr yr academi?**
Oes, os oes ganddyn nhw hawliau chwarae ar y cwrs.